

# Sbarduno newid

# gyda'n gilydd

Sefydlu Gweithrediaeth newydd GIG Cymru fel sefydliad sy'n cael ei arwain yn glinigol ac sy'n canolbwyntio ar y claf, gyda dull cydweithredol gan glinigwyr, rheolwyr, grwpiau cleifion, elusennau cenedlaethol, colegau brenhinol a chyrrff proffesiynol

## Papur trafod

Ebrill 2023



Royal College  
of Physicians

Coleg Brenhinol  
y Meddygon (Cymru)

# Yn gryno

Rydym yn galw ar Weithrediaeth newydd GIG Cymru i wneud y canlynol:

- **Rhannu cyfrifoldebau arwain** – sicrhau bod rhwydweithiau cenedlaethol newydd yn cael eu harwain gan glinigwyr sy'n gweithio gyda chynrychiolwyr cleifion.
- **Rhoi llais i bawb** – datblygu canllawiau cyd-gynhyrchu safonol ar gynnwys y trydydd sector a chleifion wrth redeg y GIG.
- **Sicrhau nad oes unrhyw gyflwr iechyd yn cael ei adael ar ôl** – gweithredu trefniadau llywodraethu cyson a rhoi cefnogaeth gynhwysfawr i raglenni ar draws pob rhwydwaith.
- **Cydnabod bod gwybodaeth yn arf** – cyhoeddi manylebau gwasanaeth a llwybrau triniaeth lleol ar-lein mewn canolfan ganolog, gan wneud taith y claf yn haws ei deall.
- **Dysgu gan bwyllgorau'r Senedd** – cyhoeddi cynlluniau gwaith a phapurau cyfarfodydd ar-lein mewn ffordd hygyrch, agored a thryloyw.

Gall y trydydd sector<sup>1</sup> yng Nghymru ychwanegu gwerth aruthrol at waith GIG Cymru. Mae llawer o'n sefydliadau'n darparu gwasanaethau sy'n delio'n uniongyrchol â phobl, ac rydym hefyd yn datblygu syniadau ac argymhellion polisi sy'n seiliedig ar arferion da ac y gellir eu rhannu'n ehangach. Rydym yn cynrychioli miloedd o gleifion, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal ledled Cymru. Gallwn gefnogi sefydliadau'r GIG i wella safonau clinigol a mynd i'r afael â phwysau strategol ehangach drwy weithio mewn partneriaeth â chlinigwyr a gwrando ar lais y rheini â phrofiad go iawn.

Dylai Gweithrediaeth newydd GIG Cymru annog agwedd agored a blaengar tuag at lywodraethu'r GIG ar sail ymddiriedaeth a pharch rhwng llais y rheini â phrofiad go iawn, clinigwyr ac arbenigedd, gwybodaeth a sgiliau polisi/gweithredol. Dylai'r dull partneriaeth hwn gael ei wreiddio yn nulliau arwain ac arferion gweithio'r weithrediaeth newydd o'r dechrau un, ac fel model gweithio, dylid ei adlewyrchu ar lefel leol ar gyfer mabwysiadu, addasu a gweithredu polisiau cenedlaethol mewn cymunedau lleol ar raddfa fawr yn gyflym.

---

<sup>1</sup> Mae diffiniad [cynllun trydydd sector Llywodraeth Cymru \(1.11–1.13\)](#) yn cynnwys cymdeithasau cymunedol, grwpiau hunan-gymorth, mudiadau gwirfoddol, elusennau, mudiadau ffydd, mentrau cymdeithasol, busnesau cymunedol, cymdeithasau tai, ymddiriedolaethau datblygu, cwmnïau cydweithredol a mudiadau cydfuddiannol. Mae colegau brenhinol a chyrrff proffesiynol yn elusennau cenedlaethol.

# Ein hargymhellion

- > **Dylai pob rhwydwaith clinigol strategol a rhaglen genedlaethol yng Ngweithrediaeth GIG Cymru gael grŵp arweinyddiaeth sy'n cynnwys cyfarwyddwr/rheolwr rhwydwaith, arweinydd clinigol ac arweinydd trydydd sector** (ee cadeirydd cynghrair berthnasol o sefydliadau allanol). Byddai hyn yn helpu i sicrhau dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y claf ac sy'n cael ei arwain yn glinigol, gan osod grwpiau cleifion a'r trydydd sector ochr yn ochr â chlinigwyr a chyfarwyddwyr/rheolwyr rhwydwaith i sbarduno newid mewn gwasanaethau. Bydd hyn yn helpu i wella tryloywder ac atebolrwydd, codi safonau gofal a gwella profiad cleifion.
- > **Dylai rhwydweithiau clinigol a rhaglenni cenedlaethol gyhoeddi eu blaengynlluniau gwaith ar-lein.** Dylai gwybodaeth am sut i ymgysylltu â darnau unigol o waith Gweithrediaeth GIG Cymru (ee datganiadau ansawdd, manylebau gwasanaeth) yn ogystal â manylion cyswllt grwpiau arwain, grwpiau cyfeirio clinigol a grwpiau gorchwyl a gorffen fod yn hygyrch, yn agored ac yn dryloyw. Dylai rhanddeiliaid a sefydliadau allanol allu dewis yn rhwydd sut a phryd maen nhw'n ymgysylltu â darnau penodol o waith, yn yr un modd ag ymchwiliadau pwyllgor y Senedd. Dylid cyhoeddi papurau cyfarfodydd ymlaen llaw a'u rhannu â holl aelodau'r rhwydwaith, ac yna eu rhoi ar-lein ar ôl y cyfarfod.
- > **Dylai papurau Gweithrediaeth GIG Cymru (ee datganiadau ansawdd, cynlluniau gweithredu, manylebau gwasanaeth) gael eu hadolygu gan brif weithredwr GIG Cymru a grwpiau cymheiriaid cyfarwyddwyr meddygol** fel ffordd o wella atebolrwydd a darpariaeth.
- > **Dylai Gweithrediaeth GIG Cymru weithio gyda'r trydydd sector i ddatblygu canllawiau ac egwyddorion cyd-gynhyrchu safonol ar gynnwys y trydydd sector a chleifion,** sy'n cael eu dilyn gan yr holl rwydweithiau clinigol, rhaglenni cenedlaethol, grwpiau gweithredu a Gweithrediaeth GIG Cymru ei hun wrth ddatblygu cynlluniau cenedlaethol. Byddai hyn yn lleihau amrywiadau ac yn sicrhau bod profiad go iawn yn cael ei gynnwys. Dylai hyn fod yn allbwn grŵp gorchwyl a gorffen sy'n adrodd erbyn diwedd 2023.
- > **Dylai rhwydweithiau clinigol a rhaglenni cenedlaethol gael trefniadau llywodraethu cyson a dylai cefnogaeth fod ar gael i raglenni.** Dylai arweinwyr clinigol gael sesiynau wedi'u hariannu a chael eu penodi drwy broses gystadleuol, a chael disgrifiad swydd ac adolygiadau gwerthuso blynyddol.
- > **Dylai Gweithrediaeth GIG Cymru a byrddau iechyd gyhoeddi llwybrau, manylebau gwasanaeth a chynlluniau cyflawni lleol ar-lein.** Byddai hyn yn gwella tryloywder ac yn rhoi mwy o reolaeth i gleifion dros eu llwybr triniaeth. Dylai data perfformiad, adroddiadau adolygu cymheiriaid a gwybodaeth gwella ansawdd fod ar gael yn rhwydd i'r holl randdeiliaid, gan gynnwys cleifion. Dylai Gweithrediaeth GIG Cymru ystyried cynnal yr adnoddau hyn ar-lein ar gyfer yr holl fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau mewn canolfan ganolog, ynghyd ag esboniad a dadansoddiad pellach yn ddelfrydol.
- > Er bod rhaglenni cenedlaethol a rhwydweithiau clinigol strategol yn cael eu nodi fel endidau ar wahân yn y fframwaith clinigol cenedlaethol, nid yw'n glir sut byddant yn cydfodoli, yn rhyngweithio ac yn cydweithio yng Ngweithrediaeth newydd GIG Cymru. **Dylai'r egwyddorion a'r argymhellion yn y ddogfen hon ac yn nogfennau'r ffrydiau gwaith gweithredu'r fframwaith clinigol cenedlaethol fod yr un mor berthnasol i rwydweithiau clinigol strategol a rhaglenni cenedlaethol.**

# Y cefndir a'r cyd-destun

Ar 15 Tachwedd 2022, ymunodd dros 50 o bobl â chyfarfod rhwng arweinwyr clinigol cenedlaethol a sefydliadau trydydd sector, grwpiau cleifion, colegau brenhinol a chyrrff proffesiynol. Y nod oedd sefydlu deialog rhwng sefydliadau rhanddeiliaid ac arweinwyr clinigol i drafod sut y gallem wella cydweithio ac ymgysylltu, rhannu arferion da a chreu dull gweithredu cyson.

## Themâu a ddaeth i'r amlwg

Roedd y themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r trafodaethau'n cynnwys pwysigrwydd cefnogi'r gweithlu, buddsoddi mewn arloesedd, data a digidol, sicrhau gweithio rhanbarthol a dull gweithredu cyson. Fe wnaethom nodi pum maes gwaith trawsbynciol posibl i'w blaenoriaethu gan Weithrediaeth newydd GIG Cymru yn ei blwyddyn gyntaf:

- > gwybodeg, data a digidol
- > cefnogi a datblygu'r gweithlu
- > cynllunio a darparu system gyfan ar draws iechedd y cyhoedd, gofal sylfaenol, gofal cymunedol a gofal cymdeithasol
- > diagnosis cynnar a chyflym gyda mynediad amserol at ofal priodol ac arloesol
- > gweithio'n rhanbarthol ar draws ffiniau sefydliadol.

Dylai Weithrediaeth newydd GIG Cymru hefyd edrych ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni dros y degawd diwethaf drwy waith y grwpiau gweithredu a gwerthuso lle mae pethau wedi mynd yn dda a pham, a lle mae pethau wedi bod yn llwyddiannus, er mwyn gallu parhau ag arferion da neu eu lledaenu'n ehangach ar draws rhwydweithiau eraill mewn ffordd sy'n seiliedig ar werth. Dylai mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechedd fod yn sail i gynlluniau gwaith yr holl raglenni cenedlaethol a rhwydweithiau strategol, yn yr un modd â gweithio ar y cyd ar draws ffiniau arbenigedd a phroffesiynol, a dylid cefnogi ac annog rhwydweithiau i ddatblygu dull gweithio ar y cyd.

## Cau'r bwlch gweithredu

Yn aml, mae diffyg cysylltiad rhwng polisi cenedlaethol a darpariaeth leol yng Nghymru. Mae hyn yn cael ei alw'n 'fwlch gweithredu'. Gall arweinwyr polisi sy'n gweithio yn y trydydd sector helpu i gau'r bwlch hwn gyda dealltwriaeth glir o brofiad ein rhanddeiliaid yng nghyd-destun deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol a bennir gan Lywodraeth Cymru. Gall llawer o fudiadau trydydd sector gynnig arbenigedd trawslywodraethol i adrannau a allai leihau meddylfryd seilo ac arwain at ddarparu gwasanaethau mewn ffordd arloesol.

## Pedwar conglaen datblygu polisi

Gall arweinwyr polisi sy'n gweithio i elusennau cenedlaethol a chyrrff aelodaeth gynnig dealltwriaeth ledled Cymru (ac weithiau ledled y DU) o'r cyd-destun polisi a deddfwriaethol ehangach ac o flaenoriaethau rhanddeiliaid. Mae hyn, ynghyd â phrofiad go iawn (cleifion/gofalwyr), arweinyddiaeth glinigol (gweithwyr iechedd/gofal proffesiynol), a'r byd academiaidd ac ymchwil (Sefydliadau Addysg Uwch a diwydiant) yn gallu darparu dealltwriaeth

gytbwys o sut bydd newid yn y GIG yn effeithio ar gleifion a chlinigwyr, a sut gallwn ni sicrhau ei fod yn gwella bywydau.

'Mae angen gweithredu, atebolrwydd, a llais teg mewn tîm sydd â nod cyffredin, gyda'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol. Mae angen i'r lleisiau hyn ddod at ei gilydd mewn fforwm sy'n gallu trafod yn agored a gwneud penderfyniadau cytbwys.' – arweinydd clinigol

Mewn geiriau eraill, mae angen i ni gael cydbwysedd rhwng llais y claf (*pam* mae angen newid), y llais clinigol (*beth* y dylem ei newid) a'r llais gweithredol (*sut* y dylem ei newid). Yn amlwg, mae'r realiti'n fwy cymhleth a chydgyssylltiedig na hyn, ond mae hwn yn fan cychwyn da.

Dylai pob rhwydwaith clinigol hefyd gael arweinydd digidol a data sy'n gweithio'n agos gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac arweinwyr digidol sefydliadau eraill y GIG. Rôl yr unigolyn hwn fyddai llywio, cefnogi a hwyluso trafodaeth strategol am dechnolegau a dadansoddi data.



'Bydd arweinwyr rhwydweithiau yn gweithredu ar ran grŵp rhanddeiliaid (cleifion, clinigwyr, rheolwyr) a dylent fod â hygredded a chysylltiadau cryf â'u cymunedau ymarfer. Dylent weithio nid yn unig o fewn rhwydwaith clinigol, ond *ar draws* rhwydweithiau clinigol hefyd.' – arweinydd clinigol

Fodd bynnag, mae angen mwy o eglurder arnom ynghylch terminoleg, disgwyliadau, cynlluniau a mesurau canlyniadau. Mae angen i bawb ddeall y weledigaeth ar gyfer dyfodol Gweithrediaeth GIG Cymru i'r dyfodol, yn enwedig cleifion a'r cyhoedd. Nes bydd gennym eglurder ynghylch yr hyn a ddisgwylir yn lleol ac yn genedlaethol, mae'n anodd iawn gwneud argymhellion ynghylch strwythur ac adnoddau cydgynhyrchu.

Yn y pen draw, mae angen rhagor o fanylion arnom am strwythur, amserlenni ac arweinyddiaeth Gweithrediaeth GIG Cymru. Mae'n werth nodi hefyd na ofynnwyd i'r trydydd sector roi sylwadau ar ddogfennau'r ffrwd waith a oedd yn nodi cynigion ar gyfer y rhwydweithiau clinigol strategol. Cafodd y rhain eu cadw'n fewnol i'r GIG, er gwaethaf ymrwymiad cyhoeddus a hirdymor Llywodraeth Cymru i gydgyhyrchu.

### Gwersi a ddysgwyd: Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd

Wrth ddatblygu'r papur hwn, buom yn siarad â chlercod pwyllgorau'r Senedd ynghylch sut maent yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod ymchwiliadau craffu. Dywedasant wrthym eu bod yn defnyddio dull integredig i ddod o hyd i dystiolaeth, ac yn dylunio model ymgynghori pwrpasol ar gyfer pob ymchwiliad. Mae'r cyfarfod cynllunio cyntaf ar gyfer pob ymchwiliad yn cynnwys nid yn unig glercod pwyllgor, ond hefyd aelodau'r timau cyfieithu, cyfreithiol, cyfathrebu, ymgysylltu ac ymchwil. Maent yn mynd ati i chwilio am amrywiaeth eang o leisiau i ddarparu tystiolaeth, ac fel egwyddor allweddol, mae pob ymgynghoriad yn agored i bawb, mor hygyrch â phosibl ac mae'r holl wybodaeth yn cael ei chyhoeddi ar-lein cyn gynted â phosibl.

# Y trydydd sector mewn partneriaeth â chlinigwyr a'r GIG

Gall y trydydd sector yng Nghymru gynnig cyngor arbenigol ar amrywiaeth o faterion cydgysylltiedig ar ran clinigwyr a chleifion. Mae sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd fel mater o drefn i ddatblygu argymhellion polisi a deddfwriaethol manwl gyda negeseuon a rennir ar draws amrywiaeth o feysydd pwnc cymhleth, ac mae llawer ohonynt mewn gwirionedd yn ddarparwyr gwasanaethau sy'n gallu defnyddio profiad uniongyrchol o'r system.

'Mae cyd-gynhyrchu'n bwysicach nag ymgynghori, ymgysylltu a hysbysu.' – arweinydd clinigol

'Byddai ein rhwydwaith clinigol yn cefnogi ffurfioli a phroffesiynoli llais profiad go iawn o fewn Gweithrediaeth GIG Cymru a rhwydweithiau clinigol strategol.' – arweinydd clinigol

Mae'r trydydd sector yn adnodd sy'n cael ei ddefnyddio'n aml, sy'n llawn arbenigedd, gwybodaeth a dealltwriaeth a allai gefnogi newid trawsnewidiol go iawn os gallwn ddatblygu system o gydgyhyrchu sy'n gweithio.

Gall elusennau cenedlaethol, colegau brenhinol, cyrff proffesiynol a grwpiau eiriolaeth cleifion ddarparu gwybodaeth amhrisiadwy am y gweithlu iechyd a gofal, defnyddwyr gwasanaeth a modelau darparu lleol a allai alluogi cymariaethau defnyddiol o fewn a rhwng darparwyr gwasanaeth, hwyluso dysgu a lledaenu arferion da.

'Rwy'n llwyr gefnogi cyfranogiad y trydydd sector yn y broses o wneud penderfyniadau ynghylch cyfeiriad rhwydweithiau clinigol strategol.' – arweinydd clinigol

Er y dylai Corff Llais y Dinesydd newydd fod ar waith erbyn mis Ebrill 2023, y risg yw y bydd cynnwys cleifion, heb gyfraniad gweithredol y trydydd sector, yn rhywbeth symbolaidd ar y gorau. Er y bydd gan Gorff Llais y Dinesydd ran i'w chwarae yng Ngweithrediaeth newydd GIG Cymru, ni ddylai hyn fod oherwydd eithrio profiad go iawn yn y trydydd sector.

'Mae angen i ni weithio'n agosach gyda'r trydydd sector i edrych ar lwybr cyfan y claf. Mae cydweithio a gwneud penderfyniadau gyda'n gilydd mewn ffordd fwy cydgysylltiedig yn ychwanegu gwerth.' – arweinydd clinigol

'Rhaid i flaenoriaethau mewn rhwydwaith cenedlaethol ganolbwyntio ar atebion, meddwl ar system sy'n ystyried pob safbwynt.' – arweinydd clinigol

Ar adeg pan fydd llawer o sefydliadau'n cael trafferth gyda chapasiti staff ac adnoddau, mae'n gwneud synnwyr cyfuno adnoddau a gweithio mewn partneriaeth i wneud y canlynol:

- > datblygu blaenoriaethau strategol a gwella perfformiad
- > lleihau amrywiadau ar draws gwahanol arbenigeddau clinigol ac ardaloedd daearyddol
- > rhannu arferion da a hwyluso dysgu
- > cysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid, gan gynnwys clinigwyr a chleifion

- > datblygu gwasanaethau iechyd a gofal mwy cynhwysol, hygyrch ac effeithiol
- > datblygu strwythurau, trefniadau llywodraethu ac arferion gweithio safonol ar gyfer cynnwys y trydydd sector a chleifion ar draws Gweithrediaeth GIG Cymru.

Gall y trydydd sector gefnogi'r sector cyhoeddus i wneud y canlynol:

- > datblygu negeseuon, dealltwriaeth a blaenoriaethau ar y cyd
- > gwneud cynnydd tuag at gau'r bwlch gweithredu
- > rhannu'r llwyth gwaith drwy gydweithio priodol.

Gall rheolwyr a chlinigwyr y GIG dreulio llawer iawn o amser yn delio â phroblemau sy'n codi. Gall y trydydd sector gefnogi meddwl strategol, wedi'i ategu gan brofiad go iawn cleifion, rhanddeiliaid ac aelodau.

'Mae newid yn araf, yn llafurus ac yn boenus. Mae angen canolbwyntio mwy ar ddal byrddau iechyd i gyfrif ar berfformiad a gweithio rhanbarthol.' – arweinydd clinigol

'Dylid cael ymrwymadau clir a gweladwy i gydgyhyrchu â chleifion a'r trydydd sector ar bob lefel yn Weithrediaeth GIG Cymru, gan gynnwys gwneud penderfyniadau, mesurau canlyniadau a goruchwyllo. Nid yw hyn yn golygu grwpiau rhanddeiliaid 'hyd braich'; mae'n golygu cael rhan lawn a chyfartal (ac adnoddau, lle bo hynny'n briodol) wrth y bwrdd.' – arweinydd polisi yn y trydydd sector

Byddai dull tryloyw ac agored o gynllunio llwybrau a manylebau gwasanaeth yn meithrin ymddiriedaeth. Gall y trydydd sector ofyn cwestiynau a herio'r sefyllfa bresennol, gan ddod â chyd-gynhyrchu go iawn i'r system iechyd a gofal. Yn ogystal â rôl yn y grŵp arweinyddiaeth, dylai'r trydydd sector fwydo i mewn i'r rhwydweithiau clinigol drwy grwpiau cyfeirio a grwpiau gorchwyl a gorffen.

'Rydym yn wynebu trawsnewid cyflym mewn wasanaethau gofal iechyd ac mae angen i ni ddod â chleifion a'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol a sefydliadau gyda ni. Mae angen i ni gydweithio ar newid diwylliannol i ddeall disgwyliadau a gwneud rhai penderfyniadau anodd gyda'n gilydd: mae hyn yn ymwneud â strategaeth, dylunio gwasanaethau a gweithredu newid ar lawr gwlad.' – arweinydd clinigol

'Yn fy arbenigedd i, mae gennym berthynas hirsefydlog, adeiladol iawn a chadarnhaol ddwy ffordd gyda sefydliadau cleifion. Os ydym am roi llais y claf a'r cyhoedd wrth galon y system, mae angen gwell integreiddio rhwng y GIG a'r trydydd sector.' – arweinydd clinigol

'Yn aml, byddai agwedd fwy cydgysylltiedig ac integredig tuag at eiriolaeth yn arwain at newid mwy effeithiol.' – arweinydd clinigol

Ni all hwn fod yn ymarfer ticio blychau. Gall y trydydd sector ddod ag arbenigedd ehangach i'r amlwg o ran sgiliau cyfathrebu, dylanwadu ar newid a rhannu arferion da. Nid yw rhoi un sedd wth y bwrdd i'r trydydd sector yn gwarantu dylanwad; bydd y llais profiad go iawn fel aelod o'r grŵp arwain yn helpu i sicrhau newid, a rhaid cefnogi'r rôl hon gyda hyfforddiant.

'Mae arnom angen grwpiau amlbroffesiwn (gan gynnwys arweinwyr clinigol cenedlaethol a chydweithwyr yn y trydydd sector) i ddylanwadu



ar ddarparu gwasanaethau mewn trefniant ffurfiol lle gallwn ddal byrddau iechyd i gyfrif.' – arweinydd clinigol

'Rhaid i lais y profiad go iawn gael ei broffesiynoli i sicrhau eu bod yn cynrychioli poblogaeth y cleifion ac nid dim ond eu teithiau eu hunain.' – arweinydd clinigol

'Bydd angen mecanweithiau a chefnogaeth arnom i sicrhau bod arweinwyr â phrofiadau go iawn yn gallu cynrychioli eu grŵp rhanddeiliaid yn briodol.' – arweinydd clinigol

Mae [Canllawiau Statudol drafft Dyletswydd Ansawdd GIG Cymru 2023](#) a [Safonau Ansawdd 2023](#) yn diffinio ansawdd fel 'diwallu anghenion y boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu'n barhaus, yn ddibynadwy ac yn gynaliadwy' (t19). Mae hyn yn 'gofyn am gynnwys pobl mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt' (t6).

'Yn aml, nid yw ymgysylltu wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion pobl amrywiol a phobl ar ymylon cymdeithas. Os byddwn yn parhau i ddefnyddio'r un dulliau ymgysylltu (sy'n aml yn anhygyrch a heb eu cyhoeddi i raddau helaeth), byddwn yn parhau i glywed yr un lleisiau... dylai defnyddwyr gwasanaeth fod yn yr ystafell felartneriaid cyfartal, gan rannu'r broses o wneud penderfyniadau fel eiriolwyr â rhwydweithiau profiad go iawn, gyda chymorth ac adnoddau i gynnal deialog gyda'u cymunedau' – arweinydd polisi'r trydydd sector

### **Gwersi a ddysgwyd: Rhwydwaith Arennau Cymru**

'Yn syml, fydden ni ddim yn gallu gwneud popeth rydyn ni'n ei wneud dros gleifion heb y gefnogaeth a'r mewnbyn gan einartneriaid elusennol. Mae pob un o'n prifartneriaid elusennol yn cael eu cynrychioli ar ein bwrdd rhwydwaith – mae hyn yn eu galluogi i gyfrannu'r holl waith da maen nhw'n ei wneud at y rhwydwaith a chanfod y synergedd gyda blaenoriaethau'r rhwydwaith. Mae hefyd yn darparu fforwm ar gyfer herio a thrafod cadarn mewn perthynas â chynlluniau rhwydwaith a chyfeiriad strategol. Rhwydwaith comisiynu ydym ni, a ni sydd â'r gyllideb ar gyfer gwasanaethau arenol arbenigol yng Nghymru, sy'n gyfrifoldeb dirprwyedig gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru. Drwy fanylebau gwasanaeth, gallwn 'gyfarwyddo' byrddau iechyd i ddarparu gwasanaethau. Rydyn ni'n monitro darpariaeth ac ansawdd, ac rydyn ni'n gweithio ar y cyd â byrddau iechyd i sicrhau bod amrywiadau diangen yn cael eu lleihau.'

## **Dull cyson a thryloyw o ymgysylltu**

'Dylai'r system fod yn safonol ac yn dryloyw. Mae'n cymryd gwaith ditectif i ganfod sut i ymgysylltu â'r rhwydweithiau a'u cynlluniau. Pe bawn i'n glaf, sut byddwn i'n cael gwybod?' – arweinydd polisi yn y trydydd sector

Dylai pob rhwydwaith clinigol a rhaglen genedlaethol gael presenoldeb ar-lein cyfredol sy'n nodi blaenraglen waith, cofnodion, agendâu, papurau cyfarfodydd, manylion cyswllt a ffyrdd o ymgysylltu. Pan fydd darn newydd o waith yn cael ei ddechrau, dylid sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen, a dilyn proses gyson (yr un broses ar gyfer pob rhwydwaith), sy'n cynnwys cais am dystiolaeth (yn seiliedig ar gylch gorchwyl a ddatblygwyd gan y rhwydwaith) a galwad am



ddatganiadau o ddi-ddordeb sy'n cael eu rhannu â rhanddeiliaid allweddol y trydydd sector, gan gynnwys Cydffederasiwn GIG Cymru sy'n gallu rhaeadru'r wybodaeth hon.

Byddai hyn yn rhoi mwy o chwarae teg i fudiadau trydydd sector, gan roi'r un cyfleoedd i bawb gyfrannu at ddatblygu polisi, gwella amrywiaeth a chynhwysiant a chaniatáu i gleifion unigol a chlinigwyr roi adborth. Dylid cyhoeddi papurau cyfarfodydd ymlaen llaw a'u rhannu â holl aelodau'r rhwydwaith, ac yna eu rhoi ar-lein ar ôl y cyfarfod. Ar ben hynny, dylai holl waith Gweithrediaeth GIG Cymru fod yn destun ymgynghoriad â chleifion a'r cyhoedd.

'Nid yw hyn yn cael ei wneud yn gyson nac mewn ffordd hygyrch o gwbl yn y drefn bresennol. Rydyn ni'n cael yr agenda'r diwrnod cynt, sy'n golygu nad ydyn ni'n gallu ymgysylltu'n ystyrlon nac awgrymu eitemau ar yr agenda, ac nid oes ffordd hawdd o edrych ar bapurau cyfarfodydd blaenorol.' – arweinydd polisi yn y trydydd sector

### **Gwersi a ddysgwyd: Iechyd Menywod Cymru**

'Mae Triniaeth Deg i Fenywod Cymru yn fudiad ar lawr gwlad sy'n cael ei arwain gan gleifion, sy'n cynnwys gwirfoddolwyr yn bennaf sy'n gallu cyfleu eu profiad go iawn mewn ffordd bwerus iawn i lunwyr polisi ac yn y cyfryngau. Rydyn ni wedi datblygu perthynas waith gref â chlinigwyr dros y blynyddoedd, sydd wedi rhoi ein hymgyrch mewn sefyllfa gref. Rydyn ni hefyd wedi gweithio gydag elusennau cenedlaethol fel y British Heart Foundation i gasglu straeon, adeiladu'r sylfaen dystiolaeth a datblygu rhwydweithiau rhanddeiliaid a dylanwadwyr. Mae llais cleifion yn gwbl ganolog i'r ymgyrch, sy'n golygu ei bod yn amhosibl i wleidyddion anwybyddu ein neges. Rydym yn rhannu nod cyffredin, sy'n gwneud y glymblaid yn gryf iawn.

'Ar y dechrau, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd a gydnabyddodd bwysigrwydd iechyd menywod. Roedd hyn yn ychwanegu pwysau at ein galwadau ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun iechyd menywod. Roedd yr Alban a Lloegr eisoes wedi cyhoeddi cynlluniau iechyd menywod, ac nid oeddem am i gleifion yng Nghymru gael eu gadael ar ôl. Mae'r gweinidog iechyd a gwasanaethau cymdeithasol wedi bod yn gefnogol iawn, ac wrth gwrs, byddai cydgynhyrchu cynllun iechyd ar gyfer menywod a merched gyda chanlyniadau mesuradwy sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn yn etifeddiaeth drawiadol o'i chyfnod yn y swydd.

'Mae heriau'n parhau. Mae tîm staff Llywodraeth Cymru sy'n datblygu'r cynllun yn fach ac mae llawer o ofynion yn cystadlu â'i gilydd. Nid oes arweinydd clinigol trosfwaol ar gyfer iechyd menywod, a all weithiau wneud cyfathrebu a datrys materion clinigol ledled Cymru yn anoddach, a deallwn fod hyn wedi bod yn broblemus i glinigwyr yn ogystal â chleifion a'r trydydd sector. Rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr at sefydlu strwythurau a fydd yn ein galluogi ni i gyd i weithio ar y cyd, yn gyson, gydag eiriolwyr cleifion a'r trydydd sector yn cael eu cynrychioli a'u cynnwys ym mhob lefel o wneud penderfyniadau a goruchwyliaeth.'

'Rydym yn deall y gall amserlenni newid; ond po fwyaf o wybodaeth sydd gennym, y mwyaf y gallwn gynnwys prosiectau yn ein cynlluniau gwaith ein hunain. Po fwyaf y cawn ein gweld fel partneriaid yn y gwaith o ddylunio gwasanaethau, y mwyaf o rybudd a gawn, y mwyaf gwerthfawr fydd ein cyfraniad.' – arweinydd polisi yn y trydydd sector

'Fel sefydliad, cawsom brofiad o ymgysylltu da gyda'n datganiad ansawdd, ond dywedwyd wrthym na fyddai'n cael ei gynnal fel ymgynghoriad cyhoeddus o gwbl. Byddem wedi hoffi gallu cyfleu profiad go iawn mewn ffordd strwythuredig, sy'n rhywbeth a oedd wedi

digwydd gyda datganiadau ansawdd eraill. Ni chafodd hynny ei gynnig i ni; chawson ni ddim gwybod bod hynny'n bosibilrwydd. Mae cynlluniau gweithredu wedi cael eu haddo i grwpiau eraill; ond ddim i ni. Mae'n anghyson. Rydyn ni'n poeni y bydd yr anghysondeb hwn yn treiddio i'r broses weithredu ac y bydd rhai datganiadau ansawdd yn cael eu hystyried yn bwysicach gan fyrdau iechyd oherwydd bod mwy o adnoddau ac ymgynghori ynghlwm wrth eu datblygiad.' – arweinydd polisi yn y trydydd sector

Bydd cael staff cymorth rhaglenni o ansawdd uchel sy'n meddu ar adnoddau da yn allweddol i lwyddiant rhwydweithiau clinigol strategol a rhaglenni cenedlaethol. Pan fydd amser staff yn cael ei rannu rhwng rhwydweithiau a rhaglenni, dylid gwneud hyn yn glir i aelodau'r rhwydwaith, a'i fonitro i sicrhau bod pob rhwydwaith yn cael digon o gefnogaeth.

## Arweinyddiaeth glinigol fel egwyddor allweddol

'Rhaid i ni fod yn bragmatig ac arwain newid. Ein cyfrifoldeb ni yw arwain ein cydweithwyr, ein rhwydweithiau a'n cymunedau, a gweithio gyda'r trydydd sector, sefydliadau proffesiynol a phartneriaid yn y diwydiant.' – arweinydd clinigol

Mae ymgysylltu clinigol yn golygu cael deialog weithredol, siapio'r drafodaeth, gweithio mewn ffordd strategol a thrafod problemau cyn dod i gonsensws neu gasgliad ar y cyd.

'Dydy ymgynghori go iawn ddim yn golygu anfon cylchlythyr unwaith yr wythnos. Os nad yw pobl yn teimlo'n rhan o broses, does dim ots a ydych chi wedi anfon mil o negeseuon e-bost, mae'r broses wedi methu.' – arweinydd polisi yn y trydydd sector

'O safbwynt ehangach, yr hyn sy'n fy mhoeni yw, "Ble mae'r llais clinigol?" Dydw i ddim yn siŵr ein bod ni'n cael ein clywed.' – arweinydd clinigol

'Rwy'n credu ein bod yn colli'r llais clinigol. Nid yw'n cael ei barchu gymaint ag yr oedd yn y gorffennol. Mae angen i ni gydweld a rhannu'r un negeseuon. Fel arall, mae'n ddryslyd.' – arweinydd clinigol

'Gallai llais clinigol cydlynol ar y cyd wella ansawdd a hygyrchedd data, fframwaith cynllunio a chyllid. Mae'n anodd i ni wneud hynny pan nad oes gennym raglen waith ar y cyd.' – arweinydd clinigol

Er ein bod yn cydnabod bod llawer o'r gwaith hwn yn mynd rhagddo fel rhan o ffrwd waith gweithredu'r fframwaith clinigol cenedlaethol, roedd clinigwyr clinigol yn teimlo ei bod yn bwysig:

- > datblygu llais clinigol unedig cryfach
- > sicrhau ymgysylltiad clinigol, nid ardystiad
- > safoni prosesau penodi, cynllunio swyddi a gwerthuso.

Dylai arweinwyr clinigol fod yn gyfrifol am ymgysylltu â chymdeithasau arbenigol, colegau brenhinol a chlinigwyr ar lawr gwlad. Dylent ddarparu persbectif clinigol annibynnol ar gynllunio gwasanaethau, a fyddai'n osgoi unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau ag arweinwyr clinigol a benodir gan y bwrdd iechyd, a dylent fod yn atebol i Lywodraeth Cymru ac arweinwyr Gweithrediaeth GIG Cymru.

'Byddai byrddau iechyd yn dweud bod y llais clinigol yn dod gan eu cyfarwyddwr meddygol, eu cyfarwyddwyr clinigol arbenigol neu aelodau o'r bwrdd clinigol. Yn eithaf rhesymol, efallai y byddan nhw'n gofyn beth yw ein rôl fel arweinwyr clinigol cenedlaethol? Pwy wnaeth ein penodi? Ar gyfer pwy ydyn ni'n siarad? Bydd ein dilysrwydd yn y dyfodol yn dibynnu ar gael lle o fewn strwythur ffurfiol y system.' – arweinydd clinigol

Mae cyflwyno dull safonol o recriwtio a phenodi yn hanfodol. Mae rhai clinigwyr wedi bod drwy broses ymgeisio a chyfweld gystadleuol; mae ganddynt ddisgrifiad swydd, gwerthusiadau blynyddol a threfniadau secondiad wedi'u hariannu. Dywedodd eraill wrthym nad oedd ganddynt ddisgrifiad swydd clir, eu bod wedi ysgrifennu eu teitl swydd eu hunain ac wedi cael eu penodi gan is-grŵp hunanetholedig.

'Mae'r Weithrediaeth newydd yn rhoi cyfle i ni gryfhau'r llais clinigol. Mae angen iaith gyffredin ar y cyd arnom i gyflwyno dadl ddarbwyllol i fyrddau iechyd; mae hyn yn golygu sicrhau bod gan y genhedlaeth nesaf o arweinwyr clinigol y sgiliau a'r wybodaeth honno.' – arweinydd clinigol

'Mae'r llais clinigol yn dechrau teimlo'n dawelach nawr yn Llywodraeth Cymru, ac mae angen iddo fod yn uwch. Dylai fod rôl ddeuol i arweinwyr clinigol: fel arbenigwyr yn ein harbenigedd ein hunain, ond hefyd fel llais ar y cyd lle bo hynny'n briodol. Fel grŵp, rydyn ni'n cael trafferth ennill momentwm oherwydd ein bod ni'n aros yn ein seilos bach ein hunain.' – arweinydd clinigol

Mae rhwydweithiau a rhaglenni yn y GIG yn aml yn tyfu'n organig, yn dibynnu ar gronfeydd arian newydd, neu bwysau gan y trydydd sector, neu flaenoriaethau'r llywodraeth. Mae hyn wedi arwain at drefn gymhleth. Er mwyn rhoi dilysrwydd i'r rolau hyn, mae'n bwysig bod pobl yn mynd drwy broses gystadleuol, yn cael disgrifiad swydd ac adolygiadau gwerthuso blynyddol gydag amcanion a chmau gweithredu y gellir eu cyflawni ar gyfer y flwyddyn. Bydd cael sesiynau arweiniol clinigol wedi'u hariannu yn hanfodol. Byddai proffesiynoli'r rolau hyn yn dangos eu gwerth i Lywodraeth Cymru, eu cyflogwyr yn y GIG, a'r arbenigedd ehangach. Byddai hyn, yn ei dro, yn rhoi dilysrwydd iddynt ac yn caniatáu i'w rhwydwaith neu raglen eu dal i gyfrif.

'Bydd y rhwydweithiau'n cael eu harwain yn glinigol gyda sesiynau cynllunio swyddi ac ariannu wedi'u hariannu.' – Rheolwr yn y GIG

'Mae amser clinigol yn werthfawr. Dylai cefnogaeth yr ystafell gefn alluogi clinigwyr i ychwanegu gwerth gyda'u harbenigedd a'u gwybodaeth.' – Rheolwr yn y GIG

Roedd cytundeb cadarn bod angen i lais y rheini â phrofiadau go iawn a chlinigwyr ddod ynghyd i wella cyfathrebu, cefnogi arweinwyr clinigol i ddylanwadu ar newid, datblygu strategaeth genedlaethol a llywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau. Byddai gweithio mewn partneriaeth o fewn y rhwydweithiau clinigol strategol yn ffordd adeiladol ymlaen. Rhaid i

aelodau'r tîm gofal sylfaenol fod yn rhan annatod o rwydweithiau clinigol o'r dechrau un; ni ellir rhannu'r system iechyd a gofal yn daclus mwyach gyda phob hanner yn gweithio ar wahân.

'Mae rhai arweinwyr clinigol yn cael eu hystyried yn llefarwyr dros eu barn eu hunain, yn hytrach nag arwain corff o glinigwyr sy'n rhwydweithio. Gall hyn arwain at agwedd ddiystyriol ynghylch eu pwysigrwydd a faint o bwys a roddir ar eu barn i ddylanwadu ar bolisi. Gallai'r trydydd sector gefnogi arweinwyr drwy ddarparu adborth/hyfforddiant adeiladol ar effeithiolrwydd yr arweinydd o ran dylanwadu ac arwain.' – arweinydd clinigol

'Gallai'r rhwydweithiau helpu i lunio rhai o'r canllawiau cynllunio sy'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Cynlluniau Tymor Canolig Integredig. Nid yw llawer o'r syniadau strategol ehangach a allai ein cael ni allan o argyfwng presennol y GIG yn rhan o Gynlluniau Tymor Canolig Integredig.' – Rheolwr yn y GIG

I gefnogi cynllunio ar gyfer olyniaeth, teimlai arweinwyr clinigol ei bod yn bwysig cydnabod a gwerthfawrogi'r gwaith sy'n cael ei wneud ar lefel genedlaethol gyda staff, adnoddau a chyllid ar gyfer cymorth gweinyddol, gyda chefnogaeth cymunedau ymarfer ehangach. Dylai hyn gynnwys adnoddau ar gyfer cynnal gwefannau a chadw presenoldeb ar-lein yn gyfredol, a fydd yn helpu cleifion a byrddau iechyd i gael gafael ar wybodaeth yn haws.

'Nid yw arweinyddiaeth glinigol ranbarthol a chenedlaethol bob amser yn cael ei chydabod na'i gwerthfawrogi gan gyrff cyflawni'r GIG. Mae recriwtio pobl i rolau arweinyddiaeth glinigol di-dâl yn dod yn fwyfwy anodd.' – arweinydd clinigol

'Mae angen i ni gefnogi ac annog eraill i gymryd rhan fel arweinwyr clinigol. Mae cynllunio ar gyfer olyniaeth angen cefnogaeth llawer gwell.' – arweinydd clinigol

'Bydd y set newydd o rwydweithiau'n seiliedig ar yr hyn sy'n cael ei ddangos fel baich clefydau yn y boblogaeth ynghyd â phwysau hysbys ar y gwasanaeth. Mae pob arweinydd clinigol eisiau rhwydwaith â digon o weithwyr, ond nid yw hynny'n fforddiadwy. Felly sut mae cysoni'r galw â realiti? Ni fydd dim byd yn sefydlog. Bydd lle i ad-drefnu rhwydweithiau wrth i feddygaeth newid.' – Rheolwr yn y GIG

Nid meddygon yn unig sy'n gyfrifol am arweinyddiaeth glinigol. Mae'r GIG a'r gweithlu gofal cymdeithasol yn cynnwys llawer o wahanol grwpiau proffesiynol a dylid rhoi cyfle i bob un ohonynt arwain newid.

'Mae'n hanfodol cydnabod y cyfraniad y mae arweinwyr clinigol eraill yn ei wneud.' – Rheolwr yn y GIG

Un o'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg yn ystod y sesiwn oedd yr angen i leihau amrywiadau a chynyddu cydweithio a gweithio ranbarthol. Mae hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid ei newid o dan Weithrediaeth newydd GIG Cymru. Dylid cynnig cymorth a hyfforddiant wedi'i dargedu i arweinwyr clinigol ar gydweithio effeithiol.

'Dylai (ac mae'n rhaid bod gan) bob datganiad ansawdd gael cynllun gweithredu cenedlaethol. Fel arall, mae'n ddiystyr, yn gasgliad o

ddisgwyliadau a gobeithion amwys gan Lywodraeth Cymru.' – arweinydd polisi yn y trydydd sector

'Yn genedlaethol, mae bron yn amhosibl dal sefydliadau GIG lleol i gyfrif am ddarparu gwasanaethau; mae ceisio cael byrddau iechyd i weithio gyda'i gilydd yn rhwystredig iawn. Dywedwyd wrthym y byddai Gweithrediaeth GIG Cymru yn newid hyn, ond rydyn ni'n gwybod erbyn hyn na fydd ganddi fwy o awdurdod nac arian na'r hen system. Felly sut ydyn ni am gyflawni pethau?' – arweinydd clinigol

'Ar lefel leol, mae uwch reolwyr y GIG yn hynod o brysur yn delio â phroblemau o ddydd i ddydd. Mae agendâu cyfarfodydd eisoes yn orlawn. Mae'n heriol iawn cael pobl i feddwl y tu allan i'r bocs am faterion strategol cenedlaethol ehangach fel gofal iechyd digidol a datblygu'r gweithlu. Dim ond hyn a hyn y gall Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac AaGIC ei wneud heb bwerau gorfodi.' – arweinydd clinigol

'Dim ond yn erbyn metrigau cyfyng iawn y mae byrddau iechyd yn cael eu dal i gyfrif am ddarparu gwasanaethau a pherfformiad. Mae darpariaeth ac arweinyddiaeth systemau yn wan yng Nghymru. Yn genedlaethol, nid ydym yn gallu cyfarwyddo byrddau iechyd i ddarparu gwasanaethau mewn ffordd benodol, sy'n arwain at amrywiad.' – arweinydd clinigol

'Nid yw'r llaw ganolog gryfach a addawyd i ni yn 2016 (a sawl gwaith ers hynny) wedi dod i'r amlwg. Mae cydweithio rhanbarthol rhwng byrddau iechyd yn cael ei annog, ond does gan neb y pŵer i wneud i hynny ddiwydd.' – arweinydd polisi yn y trydydd sector

'Ar hyn o bryd, mae gweithio rhanbarthol yn dibynnu'n llwyr ar ewyllys da. Fodd bynnag, bydd y rhwydweithiau newydd yn cael eu cefnogi i ganolbwyntio ar weithredu a strategaeth genedlaethol, a byddant yn cael eu galluogi i ddal byrddau iechyd i gyfrif gan ddefnyddio data ac ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Ond bydd angen i ni feddwl mewn ffordd wahanol. Mae'r rhwydweithiau presennol yn gwneud cymaint o bethau gwahanol, does dim rhyfedd eu bod nhw'n cael trafferth gwneud cynnydd neu wella canlyniadau.' – Rheolwr yn y GIG

Mae hyn yr un mor berthnasol i weithio ar draws Gweithrediaeth GIG Cymru rhwng rhwydweithiau clinigol strategol a rhaglenni cenedlaethol, y dylid eu hannog a'u cymell yn gryf gyda chyllid ar y cyd.

'Mae angen i ni ecsbloetio lle bydd dulliau cyffredin a gweithio ar draws ffiniau rhwydwaith yn fwy tebygol o greu newid ystyrlon.' – arweinydd clinigol

'Buddsoddi mewn technoleg ddigidol yw'r ffordd ymlaen yn amlwg, ond mae angen i ni safoni'r dull gweithredu. Ni all pawb ddefnyddio atebion digidol gwahanol – bydd hynny'n creu anhrefn.' – arweinydd clinigol

## Gwersi a ddysgwyd: Grŵp Gweithredu Iechyd Anadlol

'Mewn meddygaeth anadlol, rydyn ni wedi gweithio gyda phartneriaid arbenigol i ddatblygu offer digidol, gan gynnwys pecyn cymorth anadlu. Mae hyn yn cynnwys canllawiau cenedlaethol, apiau ar gyfer cleifion, gwella ansawdd a safonau addysgol. Rydyn ni wedi cyflwyno mewn cynadleddau ac mae diddordeb rhyngwladol. Yn ystod y pandemig, fe wnaethom ni roi dull gweithredu cenedlaethol ar waith ar raddfa fawr yn gyflym.'

## Dal byrddau iechyd i gyfrif

'Mae rôl i'r gymuned glinigol i gefnogi'r trydydd sector i ddehongli data sy'n cael ei gyhoeddi a herio'r system. Ond mae unrhyw ddata sydd heb ei gyhoeddi yn dal i gael ei gadw gan gyrff cyhoeddus. Dylai'r wybodaeth honno fod ar gael i'r cyhoedd; dylai adroddiadau adolygu cymheiriaid fod ar gael a'u cyhoeddi ar-lein. Rydyn ni'n gwybod nad yw'r mwyafrif, ac mae'r rhai sydd ar gael yn cael eu claddu ar wefannau byrddau iechyd, sy'n ei gwneud yn anodd iawn i sefydliadau allanol eu dal i gyfrif.' – arweinydd clinigol

'Rydym ar ei hôl hi o ran arloesi digidol. Dylem fod yn defnyddio adnoddau digidol i greu cleifion arbenigol sy'n gallu rheoli eu cyflyrau'n well.' – arweinydd clinigol

'Drwy adolygiad Getting It Right First Time (GIRFT), rydyn ni wedi canfod nad yw casglu data yng Nghymru yn ddigon da i nodi arferion da a chreu polisiau newydd. Mae hynny'n siomedig dros ben. Heb sylfaen dystiolaeth, mae'n anodd annog pobl i newid. Nid oes digon o bwyslais ar godio cywir, sy'n golygu na allwn ni ddibynnu ar y data.' – arweinydd clinigol

'Mae angen buddsoddiad enfawr mewn casglu data i wneud y ddatl, ond mae angen yr awdurdod arnom hefyd i wneud i newid ddigwydd. Gyda data cywir, gallem wneud arbedion cost sylweddol a gwella canlyniadau cleifion.' – arweinydd clinigol

'Dylai data fod yn dryloyw ac yn gywir. Mae angen i ni allu cyfleu'r canlyniadau mewn iaith y mae'r cyhoedd yn ei deall – a dyna lle gall y trydydd sector, ac eraill, helpu. Does dim pwynt casglu data os nad yw'n gwneud gwahaniaeth i'r canlyniadau y mae cleifion yn eu gweld. Efallai fod arnom angen darn o waith ar y cyd ar ddata, codio, tryloywder a chyfathrebu.' – arweinydd polisi yn y trydydd sector

'Ni all AaGIC orfodi byrddau iechyd i gyhoeddi data am swyddi gwag, felly does gennym ni ddim syniad lle mae'r bylchau yn y gweithlu. Yn anecdotaid, rydyn ni'n gwybod bod pawb dan ormod o bwysau ond does gennym ni ddim dystiolaeth.' – arweinydd polisi yn y trydydd sector



## Newid yn y gwasanaeth ar raddfa fawr ac yn gyflym

Ni fydd cynllun gweithredu cenedlaethol yn cyd-fynd â phob datganiad ansawdd. Fodd bynnag, mae risg y bydd rhai datganiadau ansawdd yn cael eu hystyried yn 'fwy pwysig' nag eraill oherwydd hyn. Felly, mae'n rhaid cryfhau'r cysylltiad rhwng datganiadau ansawdd, cynlluniau gweithredu a Chynlluniau Tymor Canolig Integredig y byrddau iechyd er mwyn gallu craffu ac atebolrwydd yn effeithiol.

'Mae'r fframwaith clinigol cenedlaethol yn ymwneud â gosod cyfeiriad cenedlaethol, safonau cenedlaethol a chanlyniadau disgwylidig cenedlaethol, y dylai byrddau iechyd eu gweithredu.' – arweinydd clinigol

'Dydyn ni ddim eisiau blwyddyn arall o ddiffyg canolbwyntio, lle mae'r holl rwydweithiau'n gorfod ceisio adolygu saith fersiwn gwahanol o'r gwirionedd.' – Rheolwr yn y GIG

Dylai byrddau iechyd ddefnyddio eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig i nodi'n union sut byddant yn bodloni manylion datganiadau ansawdd, llwybrau clinigol a manylebau gwasanaeth a nodir gan Weithrediaeth GIG Cymru. Dylai'r Cynlluniau Tymor Canolig Integredig hyn ddilyn templed y cytunwyd arno'n genedlaethol, wedi'i gyd-gynhyrchu â'r trydydd sector. Dylai byrddau iechyd gydgyhyrchu'r cynlluniau hyn â grwpiau cleifion a thrydydd sector lleol: dylid datblygu set genedlaethol o ganllawiau ar gyfer sut maen nhw'n gwneud hyn i sicrhau cysondeb o ran dull gweithredu.

'Mae canllawiau cynllunio Cynllun Tymor Canolig Integredig eisoes wedi cael eu cyhoeddi, sy'n gyfle arall a gollwyd i gynnwys ac ymgysylltu clinigol.' – Rheolwr yn y GIG

'Mae datganiadau ansawdd wedi cael eu cyhoeddi ar hap dros gyfnod hir iawn. Ble mae'r sicrwydd y byddant ar gael mewn pryd i'w cynnwys mewn Cynlluniau Tymor Canolig Integredig?' – arweinydd polisi yn y trydydd sector

'Mae cymaint yn rhyngddibynnol. Mae unrhyw newid mawr i lif cleifion yn cael effaith ar y gwasanaeth ambiwlans ac arbenigeddau a llwybrau clinigol eraill. Mae prinder gweithwyr yn broblem fawr ac nid oes proses recriwtio genedlaethol i lenwi swyddi meddygol o'r tu allan i Gymru. Byddai mynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal yn rhyddhau mwy o gapasiti, ond nid oes ewyllys wleidyddol i fynd i'r afael â'r argyfwng gofal cymdeithasol. Unwaith eto, byddai gweithio'n rhanbarthol ac yn gydweithredol yn helpu, ond nid yw'n bosibl oherwydd cyfyngiadau cyllidebol a gweithredol. Nid yw byrddau iechyd yn fodlon rhannu'r baich ariannol gyda'u cymdogion drwy dderbyn cleifion o fannau eraill.' – arweinydd clinigol



# Mae'r canlynol yn cefnogi'r papur hwn:

1. Asthma + Lung UK Cymru
2. Brain Tumour Research
3. Cymdeithas Ddeieteg Prydain
4. British Liver Trust
5. British Society for Heart Failure
6. Crohn's & Colitis UK
7. Triniaeth Deg i Fenywod Cymru
8. Cynghrair Genetig y DU
9. Cymorth Cancer Macmillan
10. Marie Curie
11. Cymdeithas MS Cymru
12. Parkinson's UK Cymru
13. Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu
14. Coleg Brenhinol y Meddygon
15. Coleg Brenhinol Podiatreg
16. Coleg Brenhinol Llawfeddygon Caeredin
17. Coleg Brenhinol Llawfeddygon Lloegr
18. Y Gymdeithas Strôc
19. Gofal Cancer Tenovus
20. Cynghrair Cancer Cymru
21. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
22. Cynghrair Niwrolegol Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Lowri Jackson**

Pennaeth polisi ac ymgyrchoedd (Cymru a Gogledd Iwerddon)

Coleg Brenhinol y Meddygon

[Lowri.Jackson@rcp.ac.uk](mailto:Lowri.Jackson@rcp.ac.uk)

Coleg Brenhinol y Meddygon  
The Maltings, Stryd East Tyndall Street  
Caerdydd | Cardiff CF24 5EZ

[Wales@rcp.org.uk](mailto:Wales@rcp.org.uk)

 [@RCPWales](https://twitter.com/RCPWales)

[rcp.org.uk](http://rcp.org.uk)



**Royal College  
of Physicians**

Coleg Brenhinol  
y Meddygon (Cymru)